

Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.11 Ariannu corfforaethol

Cael cymorth gan gwmnïau

Dull gweithredu cymharol ddieithr i lawer o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yw cysylltu â chwmnïau i gael arian neu fathau eraill o gymorth. Yn aml, ni fydd grwpiau'n gwybod sut mae cwmnïau'n arfer rhoi arian na sut i gysylltu â nhw. Ni fydd gofyn ichi newid eich gwaith na'ch dull o'i gyflawni wrth gael arian gan gwmnïau. Efallai y bydd yn rhaid ichi eich 'gwerthu' eich hun ychydig yn wahanol. Fodd bynnag, cafwyd llawer o lwyddiannau ymhlith y grwpiau hynny sy'n gweithio gyda chwmnïau.

Pam y mae cwmnïau'n rhoi?

Mae cwmnïau'n cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol am amryw o resymau. Po fwyaf o fanteision a gynigiwch, po fwyaf creadigol y byddwch, mwyaf tebygol yw hi y byddwch yn llwyddo.

- Er mwyn creu ewyllys da
- Cael sylw da yn y cyfryngau
- Marchnata nwyddau a gwasanaethau
- Cryfhau'r brand neu'r ddelwedd gorfforaethol
- Gwirfoddoli neu secondio gweithwyr

Yn aml, bydd cwmnïau'n chwilio am yr achosion da sy'n fwyaf perthnasol i'w busnes. Gallai'r cysylltiad fod yn un daearyddol neu'n un sy'n ymwneud â'u cynnyrch. Er enghraifft, gallai cwmni

gwneud larymau roi cymorth i gynllun sy'n gostwng troseddu. Yn achos grwpiau lleol, gallai cysylltiadau personol fod yn bwysig, os yw aelod o'r grwp yn gweithio i gwmni lleol neu'n adnabod rhywun sy'n gweithio yno.

Mathau o gymorth gan gwmnïau

Rhoddion heblaw arian – yn aml, bydd cwmnïau'n rhoi cynhyrchion, deunyddiau neu hen gyfarpar swyddfa fel cyfrifiaduron am ddim. Bydd rhai grwpiau'n cael swyddfeydd neu wasanaethau llungopïo neu argraffu am ddim neu am gost is gan gwmnïau lleol.

Cyngor a chefnogaeth – weithiau gallwch gael gwasanaethau neu gyngor arbenigol am ddim gan fusnesau lleol fel cwmnïau twrneiod neu gyfrifwyr.

Cysylltiadau ym myd busnes – gall pobl fusnes flaenllaw fod yn ddylanwadol iawn o ran cael cymorth ariannol gan bobl eraill ym myd busnes.

Gwirfoddoli neu secondio gweithwyr – bydd rhai cwmnïau'n secondio staff i helpu grwpiau lleol, neu'n trefnu gweithgareddau gwirfoddol gyda'u staff, gan gynnwys rhai i godi arian. Mae angen rheoli trefniadau o'r fath a gall hynny greu gwaith ychwanegol i'ch grwp.

Arian – mae dau brif fodd i gael cymorth ariannol gan gwmnïau:

Rhoddion – bydd y cwmni'n rhoi arian i'ch grwp fel 'achos da'. Bydd y cwmni'n cael gostyngiad yn ei dreth am y rhoddion hynny ond ni chaiff ddim arall yn gyfnewid am ei arian.

Nawdd – dyma un modd i hyrwyddo brand ac enw da'r cwmni ymysg y cyhoedd, gan helpu achos da yr un pryd. Mae'n wahanol i rodd gan y bydd y cwmni'n cael – ac yn disgwyl cael – rhywbeth yn gyfnewid am ei gefnogaeth.

Gellir cynnig nawdd ar ffurf arian neu ar ffurf arall. Enghreifftiau o nawdd o fath arall yw rhoddion o gyfarpar, cynnig arbenigedd busnes neu secondio gweithwyr.

Mae gan gwmnïau mawr gyllideb ar wahân ar gyfer nawdd ac maent yn ofalus iawn wrth ei gwario. Mae'n bwysig iddynt fod enw da i'r grwp neu'r prosiect y maent yn dewis ei noddi, ac y bydd y cysylltiad yn gwella delwedd gyhoeddus y cwmni drwy:

Hybu ymwybyddiaeth o'r brand – mae'r cyhoedd yn dod i adnabod enw a logo'r noddwr a'r gobaith yw y byddant yn dewis cynnyrch neu wasanaethau'r noddwr o flaen rhai ei gystadleuwyr.

Sylw yn y cyfryngau – mae nawdd yn creu cyfleoedd i enw a/neu logo'r noddwr ymddangos yn y cyfryngau.

Cysylltiadau â chwsmeriaid – mae nawdd yn rhoi cyfleoedd i wahodd cleientiaid i ddiwyddiadau (lletygarwch) a/neu i gyfathrebu â chwsmeriaid drwy gyhoeddusrwydd am nawdd.

Cysylltiadau â gweithwyr – mae rhaglenni nawdd yn hybu balchder yn y cwmni, yn creu mwy o deyrngarwch iddo ac yn ei helpu i recriwtio a chadw

staff o ansawdd da. Mae cyfle hefyd i gynnwys staff yn y rhaglenni (secondio, dod i ddiwyddiadau etc.) Os ydych yn ceisio nawdd, rhaid ichi nodi'n glir beth yr ydych yn ei gynnig i'r cwmni'n gyfnewid am hynny.

Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, mae nawdd yn cyfrif fel incwm masnachu i ddibenion TAW. Ni chaiff y cwmni hawlio gostyngiad yn ei dreth am gytundeb nawdd hyd yn oed os ydych yn elusen.

Sut i gysylltu â chwmnïau?

Pan fyddwch yn cysylltu â chwmnïau, mae'n bwysig ichi gofio mai eu prif amcan yw gwneud elw – nid rhoi i elusennau. Felly mae'n bwysig iawn ichi wneud eich gwaith cartref a thargedu cwmnïau y credwch y gallent ymddiddori yn eich gwaith, er enghraifft, am eich bod yn adnabod rhywun sy'n gweithio yno, neu am fod eu prif swyddfa yn eich ardal, neu am fod cysylltiad rhwng eich gwaith a'u cynnyrch.

- Cofiwch y bydd cwmnïau am gael gwybod beth fyddant yn ei gael am y nawdd.
- Gofalwch eich bod yn cael enw'r person yr ydych yn cysylltu ag ef – peidiwch ag anfon cylchlythyrau wedi'u cyfeirio â'r geiriau 'Annwyl Syr/Madam'. Holwch dros y ffôn i gael gwybod pwy sy'n gyfrifol am roddion i elusennau neu nawdd. Y rhai sydd â chyfrifoldeb yn aml yw'r adran materion corfforaethol, yr adran farchnata neu'r adran cysylltiadau cyhoeddus.
- Os ysgrifennwch lythyr, rhaid iddo fod yn fyr ac yn gryno – un ochr i ddalen A4 os oes modd.

- Efallai y bydd yn rhaid aros am gryn amser i gael ateb. Os yw'r cwmni'n un mawr neu'n rhan o gadwyn, mae'n bosibl y bydd yn rhaid cael caniatâd gan y brif swyddfa.
- Os oes polisi gan y cwmni ar roddion i achosion da neu nawdd, mae'n bosibl y bydd yn cynllunio ymlaen i'r flwyddyn nesaf ac yn bellach.
- Peidiwch â disgwyl gormod.
- Cofiwch ddiolch os cewch gymorth a chydabod eu cymorth yn eich adroddiad blynyddol neu'ch cylchlythyr.

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Adnoddau defnyddiol

www.bitc.org.uk – Busnes yn y Gymuned

www.companygiving.org.uk

www.companieshouse.gov.uk – i chwilio am wybodaeth am gwmnïau

www.yell.com – i ddod o hyd i fusnesau

The Guide to UK Company Giving
2007/08 gan John Smyth a Denise Lillya, Directory of Social Change, Mawrth 2007

Corporate Fundraising gol. Valerie Morton, Charities Aid Foundation, 2002 (mae argraffiad newydd i'w cyhoeddi ym Mehefin 2007)

Finding Company Sponsors for Good Causes gan Chris Wells, Directory of Social Change, 2001

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn

Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig 1088828

Ffôn: 01248 724944

post@medrwnmon.org

Ffacs: 01248 750149

www.medrwnmon.org

Cynhyrwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 15/07/2008



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk